



Canllawiau DRAFFT ar gyfer Etholiadau 2016

Ymgyrchoedd Etholiadol ar gyfer:

Senedd yr Alban

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Gogledd Iwerddon

Awdurdod Llundain Fwyaf (gan gynnwys ethol y Maer)

Llywodraeth Leol mewn rhannau o Loegr (y tu allan i Awdurdod Llundain Fwyaf)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Y Diwrnod Pleidleisio:

5ed Mai 2016

1. Cyfnod yr Etholiad	2
1.1 Cyfnod yr Etholiad a phan ddaw'r Canllawiau ar gyfer yr Etholiadau a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym	2
1.2 Etholiadau.....	3
2. Crynodeb o'r Materion gorfodol a chyfeiriadau	4
2.1 Yn ystod Cyfnod yr Etholiad:.....	4
2.2 Diwrnod pleidleisio (00.30 – 22.00).....	4
3. Y Canllawiau	5
3.1 Eu Diben	5
3.2 I bwy y mae'r Canllawiau'n berthnasol	6
4 Amhleidioldeb Priodol	6
4.1 Sylw i'r Pleidiau a'r Ymgeiswyr	6
4.2 Amhleidioldeb mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein	6
4.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill (gan gynnwys refferendwm yr UE), yn San Steffan, yn Senedd Ewrop ac yng Nghynghorau'r DU yn ystod Cyfnod yr Etholiad	8
4.4 Trefn Pleidiau.....	8
4.5 Eitemau lle na fydd gofyn o reidrwydd ichi drefnu cyfraniadau gan bleidiau neu gan ymgeiswyr eraill.....	9
5 Tegwch i'r Ymgeiswyr - Cod Ymarfer	9
5.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (Etholaethau, Wardiau neu ardaloedd Heddlu)	9
5.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau a rhaglenni ffonio sy'n ymwneud â materion penodol	10
5.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg.....	11
6. Cyfraniadau Ar Lein, ar Gyfryngau Cymdeithasol a gan y Gynulleidfaoedd	11
6.1 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol	12
6.2 Cyfraniadau gan y gynulleidfa	12
6.3 Pleidleisio	13
6.4 Rhaglenni â Chynulleidfaoedd, gan gynnwys Dadleuon	13
6.5 Deunydd gan bleidiau neu gan ymgeiswyr	14
7 Polau a phrofion barn eraill	14

7.1	Adrodd am Bolau	14
7.2	Comisiynu Polau	15
8	Cyfweliadau ag Arweinwyr Pleidiau	16
9	Y Diwrnod Pleidleisio	16
10	Cwynion	16

1. Cyfnod yr Etholiad

1.1 Cyfnod yr Etholiad a phan ddaw'r Canllawiau ar gyfer yr Etholiadau a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym

Ar gyfer yr etholiadau a gynhelir ar 5^{ed} Mai 2016, ni fydd y cyfnodau etholiadol i gyd yn dechrau ar yr un diwrnod. Bydd y canllawiau hyn yn dod i rym ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod etholiad cynharaf ar gyfer allbwn ar draws y DU, sef

Dydd Llun 21^{ain} Mawrth 2016 am 00.01

ond pan fydd arwyddocâd penodol i amrywiaethau bydd cyngor manwl ar gael gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. Sut bynnag, mae'n debyg y bydd yr ymgyrchoedd etholiadol yn dechrau cyn cyfnodau ffurfiol yr etholiadol a dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn arbennig o ofalus yn y cyfnod cyn Cyfnod yr Etholiad. Unwaith eto, bydd cyngor ar gael gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Dyma ddechrau cyfnod yr Etholiad ar gyfer pob etholiad:¹

**Awdurdod Llundain Fwyaf (gan gynnwys ethol Maer Llundain):
Dydd Llun 21^{ain} Mawrth 2016.**

Senedd yr Alban:	Dydd Mercher 23^{ain} Mawrth 2016
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Dydd Mercher 30^{ain} Mawrth 2016
Cynulliad Gogledd Iwerddon	Dydd Mercher 30^{ain} Mawrth 2016
Llywodraeth Leol yn Lloegr	Dydd Mercher 30^{ain} Mawrth 2016
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau	Dydd Mercher 30^{ain} Mawrth 2016

Bydd y Canllawiau mewn grym ar gyfer pob etholiad nes i'r gorsafodd pleidleisio gau am 22.00 ddydd Iau 5^{ed} Mai.

Does dim gwahaniaeth ffurfiol rhwng cyfnodau'r etholiadau cyn ac ar ôl i'r broses enwebu gau. Mae'r broses enwebu'n cau ar ddiwrnodau gwahanol ar gyfer etholiadau gwahanol –31^{ain} Mawrth yn Llundain, 1^{af} Ebrill yn yr Alban, 7^{fed} Ebrill ar gyfer pob etholiad yng Nghymru a Lloegr (y tu allan i Lundain); 12^{fed} Ebrill yng Ngogledd Iwerddon.

¹ Bydd pob dyddiad yn cael ei gadarnhau

1.2 Etholiadau

Senedd yr Alban

Bydd yr Etholiad yn cael ei ymladd ar sail y System Aelodau Ychwanegol, gyda 73 etholaeth aelod unigol ac wyth rhanbarth i gyd yn ethol saith ASA ychwanegol drwy restr plaid.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bydd yr Etholiad yn cael ei ymladd ar sail y System Aelodau Ychwanegol, gyda 40 etholaeth aelod unigol a phum rhanbarth i gyd yn ethol pedwar AC ychwanegol drwy restr plaid.

Cynulliad Gogledd Iwerddon

Bydd yr Etholiad yn cael ei ymladd ar sail System Un Bleidlais Drosgrwyddadwy gyda 6 MLA yn cael ei ethol ym mhob un o 18 etholaeth Gogledd Iwerddon.

Awdurdod Llundain Fwyaf

Bydd yr etholiad ar gyfer Maer Llundain yn cael ei ymladd drwy ddefnyddio'r system Pleidlais Atodol. Mae'r etholiad ar gyfer Cynulliad Llundain yn defnyddio'r system Aelod Ychwanegol, gan ethol 14 aelod etholaeth ac 11 o aelodau ar draws Llundain ar gyfer cyfanswm o 25 sedd.

Llywodraeth Leol mewn 124 o gynghorau yn Lloegr (y tu allan i Awdurdod Llundain Fwyaf)²

35 bwrdeistref fetropolitan

19 awdurdod unedol

70 awdurdod dosbarth

Ac ethol 3 Maer (ym Mryste, Lerpwl a Salford) gyda phleidlais atodol

Gyda'i gilydd, bydd oddeutu 2670 o seddi'n cael eu hymladd. (i'w gadarnhau)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr)

Yn Lloegr (y tu allan i Lundain), cynhelir yr etholiadau gan ddefnyddio system y Bleidlais Atodol, a hynny yn 37 o ardaloedd daearyddol yr heddlu.

Yng Nghymru, cynhelir etholiadau'n defnyddio system y Bleidlais Atodol yn ardaloedd pob un o'r 4 heddlu.

Ni chynhelir etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon nac yn Llundain.

² Nid yw'r ffigurau wedi cael eu cadarnhau eto

I gael rhagor o wybodaeth sy'n benodol i bob etholiad, edrychwch ar yr Atodiadau.

2. Crynodeb o'r Materion gorfodol a chyfeiriadau

2.1 Yn ystod Cyfnod yr Etholiad:

- Rhaid i unrhyw raglen na fydd fel rheol yn ymwneud â phynciau gwleidyddol nac fel rheol yn gwahodd gwleidyddion i gyfrannu ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn trefnu'n derfynol i wneud hynny.*
- Rhaid cyfeirio pob cynnig ar gyfer cyfweliad neu gynnig ar gyfer proffilio arweinwyr pleidiau'r DU at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn cysylltu â'r pleidiau. Dylid hefyd cyfeirio cynigion ar gyfer arweinwyr y pleidiau yn y gwledydd at y Penaethiaid Newyddion priodol yn y gwledydd. Hefyd, dylid cyfeirio cynigion i wneud cyfweliadau o'r fath cyn eu derbyn.*
- Rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i ddefnyddio cyfraniad gan ymgeisydd heb gyfle i unrhyw bleidiau neu ymgeiswyr eraill gyflwyno sylw neu ymateb at uwch ffigwr golygyddol a'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. (edrychwch ar gyd-destun 4.5).
- Ni fydd y BBC yn comisiynu polau i fesur bwriadau pleidleisio i'w cyhoeddi yn ystod yr ymgyrch.
- Rhaid i unrhyw gynnig i gomisiynu pŵl piniwn am wleidyddiaeth neu am unrhyw bwnc arall ym maes polisi cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.
- Ni fydd dim pleidleisio (ar-lein, SMS/negeseuon testun na chyfryngau cymdeithasol) er mwyn ceisio mesur y gefnogaeth i blaid, i ymgeisydd neu i fater sy'n ymwneud a pholisi plaid wleidyddol.
- Rhaid trafod unrhyw gynnig i gynnal pleidlais (ar-lein/negeseuon testun neu gyfryngau cymdeithasol) ar unrhyw fater gwleidyddol a allai effeithio ar unrhyw un o'r etholiadau â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at uwch swyddog golygyddol perthnasol yr adran ac ITACU.
- Ni wnaiff y BBC ddarlledu na chyhoeddi nifer y negeseuon e-bost, testun na mathau eraill o gyfathrebu a dderbynnir ynglŷn â'r naill ochr na'r llall i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch.

* rhaid cyfeirio y tu allan i gyfnodau'r etholiadau hefyd.

2.2 Diwrnod pleidleisio (00.30 – 22.00)

- Ni cheir cyhoeddi'r un pŵl piniwn am unrhyw fater sy'n ymwneud â'r etholiad.

- Ni fydd dim sylw i unrhyw un o'r materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymgyrchoedd yr etholiad ar unrhyw un o wasanaethau'r BBC na'i gyfryngau cymdeithasol.
- Mae hi'n drosedd cyhoeddi unrhyw beth am y ffordd mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiadau.

3. Y Canllawiau

3.1 Eu Diben

Nid oes yr un maes darlledu lle y bydd craffu mwy manwl ar ymrwymiad y BBC i sicrhau amhleidioldeb teg nag ar ei adroddiadau adeg ymgyrchoedd etholiadau.

Bwriad y Canllawiau hyn ydy rhoi fframwaith i newyddiadurwyr:

- weithredu mewn amgylchedd sydd mor rhydd ac mor greadigol ag sy'n bosibl,
- darparu i gynulleidfaoedd ohebiaeth amhleidiol ac annibynnol am yr ymgyrch, gan roi sylw teg i bolisiâu ac ymgyrchoedd pob plaid a chraffu'n fanwl arnyn nhw.

Mae'r gyfraith hefyd yn mynnu bod y BBC yn mabwysiadu **Cod Ymarfer** mewn perthynas â "chyfraniadau ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol at eitemau sy'n ymwneud â'r etholaeth neu'r ardal etholiadol mewn gwasanaethau perthnasol yn ystod cyfnod yr etholiad". Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni gan [Adran 5 o'r Canllawiau hyn](#).

Dan delerau ei Siarter a'i Gytundeb yn 2006 mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod ei sylw i faterion gwleidyddol yn gywir ac yn amhleidiol. Mae'r Canllawiau Etholiadol hyn yn ategu'r Canllawiau Golygyddol (Pennod 4, "[Amhleidioldeb ac Amrywiaeth Barn](#)" a Phennod 10, "[Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus](#)"). Dylid eu darllen, yn benodol, ar y cyd ag adrannau ym Mhennod 10 sy'n ymwneud ag "Adrodd am Ymgyrchoedd Etholiadau a Refferenda yn y DU" a "Darlledu yn Ystod Etholiadau", sy'n dweud ei bod yn rhaid i'r BBC sicrhau:

- bod penderfyniadau yng nghyswllt newyddion yn parhau i fod yn sail i benderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni newyddion.
- bod penderfyniadau yng nghyswllt newyddion adeg etholiad yn cael eu gwneud o fewn **fframwaith dadl ddemocrataidd** sy'n sicrhau bod sylw teg yn cael ei roi i wrando ar sylwadau a thrin a thrafod a herio polisiâu pob plaid. Dylai pleidiau bach pwysig hefyd gael rhywfaint o sylw ar y rhwydwaith yn ystod yr ymgyrch.
- rydym yn ymwybodol o'r **strwythurau gwleidyddol gwahanol** ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn y sylw a roddir i'r etholiad ym mhob gwlad. Rhaid i raglenni sy'n cael eu dangos ar draws y DU hefyd ystyried hyn.

Mae'r Canllawiau ar gael i'r cyhoedd a gall y BBC ddisgwyl cael ei dal yn atebol am eu rhoi ar waith yn ystod yr ymgyrch.

3.2 I bwy y mae'r Canllawiau'n berthnasol

Cyfrifoldeb pob golygydd ydy sicrhau bod eu cynhyrchwyr cynnwys yn gwybod sut mae'r Canllawiau'n berthnasol i'w hallbwn.

Rhaid i unrhyw raglen na fydd fel rheol yn ymwneud â phynciau gwleidyddol nac fel rheol yn gwahodd gwleidyddion i gyfrannu ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn trefnu'n derfynol i wneud hynny.

Mae'r Atodiadau'n rhoi gwybodaeth sy'n benodol i'r etholiadau gwahanol a gwahanol rannau o'r DU.

Rhaid i bob rhaglen, dilyniant, gwefan neu sianel ystyried lleoliad ei gynulleidfa arfaethedig wrth roi'r Canllawiau hyn ar waith.

Mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw gynnwys sydd wedi cael ei fwriadu i gynulleidfaoedd y DU, sy'n berthnasol i unrhyw agwedd ar yr etholiad.

4 Amhleidioldeb Priodol

4.1 Sylw i'r Pleidiau a'r Ymgeiswyr

Er mwyn sicrhau amhleidioldeb priodol, rhaid i bob bwletin, rhaglen neu ddilyniant o raglenni, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol, ar gyfer pob etholiad dan sylw, sicrhau bod pob plaid (a'r ymgeiswyr annibynnol pan fydd hynny'n berthnasol) yn cael sylw cymesur dros gyfnod priodol, sef wythnos fel arfer.

Wrth benderfynu ar lefelau sylw priodol dylid ystyried lefelau o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol ac ar hyn o bryd (edrychwch ar yr Atodiadau).

Cefnogaeth etholiadol yn yr etholiad cyfatebol blaenorol ydy'r man cychwyn ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny. Serch hynny, dylid ystyried ffactorau eraill pan fo'n briodol, gan gynnwys tystiolaeth o lefelau gwahanol o gefnogaeth mewn etholiadau mwy diweddar, newidiadau mewn amgylchiadau gwleidyddol (ee pleidiau newydd neu raniadau mewn pleidiau) yn ogystal â thystiolaeth arall o'r gefnogaeth ar hyn o bryd. Gallai nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll fod yn ystyriaeth hefyd.

4.2 Amhleidioldeb mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein

Fel rheol dylai rhaglenni cylchgrawn newyddion dyddiol roi sylw cymesur a phriodol yn ystod pob wythnos o'r ymgyrch.

Mae hyn yn golygu bod pob dilyniant (ee rhaglen amser gyrru ar y radio) yn gyfrifol am gyflawni amhleidioldeb ei hun yn ystod yr wythnos ac ni all ddibynnu ar gyfryngau eraill ar wahanol adegau o'r dydd (ee rhaglen amser

brecwast) i wneud hynny ar ei rhan. Nid yw hyn yn rhwystro rhaglenni, mewn amgylchiadau penodol, rhag cydweithredu i drefnu sylw ar y cyd, a thrwy hynny sicrhau amhleidioldeb ar draws yr orsaf neu'r sianel. Ond bydd angen esbonio trefniadau o'r fath yn eglur a dylid fel arfer eu cyfeirio at y Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth.

Dylai dilyniannau mewn rhaglenni fod yn ofalus rhag bod rhifynnau unigol yn mynd allan o drefn yn sylweddol. Efallai bydd rhai diwrnodau pan fydd un blaid yn dominyddu'r agenda newyddion yn sylweddol, ee pan fydd plaid yn lansio ei manifesto, ond yn yr achos hwnnw rhaid sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi pan fydd y pleidiau eraill yn lansio eu manifestos nhw ar y diwrnodau perthnasol.

Bydd y Sianel Newyddion a chrynodebau ar y radio'n rhannu'r diwrnod 24 awr yn flociau amser ac yn ceisio sicrhau amhleidioldeb priodol ar draws allbwn wythnos ym mhob bloc.

Dylai rhaglenni wythnosol, neu gyfresi sy'n rhedeg o fewn rhaglenni dilyniant dyddiol, sy'n canolbwyntio ar un blaid neu un arall, gyfeirio yn ôl ac ymlaen fel ei bod yn glir i'r gynulleidfa y ceir amhleidioldeb priodol dros amser. Yn yr achosion hyn, dylid cyflawni amhleidioldeb priodol dros gyfnod yr ymgyrch.

Bydd yr un canllawiau ag sy'n berthnasol ar gyfer rhaglenni'n berthnasol i gynnwys Golygyddol y BBC ar holl safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain yn berthnasol i gynnwys sain a fideo yn ogystal ag i gynnwys testun, ee blogiau, podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal ag i unrhyw rwydweithio cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partïon ([edrychwch ar adran 6 isod](#)).

Mae'r Canllawiau Golygyddol (4.4.14) yn datgan yng nghyswllt gwneuthurwyr rhaglenni "...ni ddylent dybio yn awtomatig bod cyfranwyr o fudiadau eraill (megis academyddion, newyddiadurwyr, ymchwilywyr a chynrychiolwyr elusennau) yn ddiuedd, ac efallai y bydd angen i ni egluro i'r gynulleidfa pan fydd cyfranwyr yn gysylltiedig â safbwynt penodol..."

Yng nghyd-destun yr etholiadau hyn, bydd angen i gynhyrchwyr cynnwys gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfranwyr yn cael eu disgrifio'n briodol, a'u bod wedi ystyried, er enghraifft, sylwadau maen nhw wedi'u gwneud ar gyfryngau cymdeithasol, sut mae eu sefydliadau'n cael eu hariannu a natur ymchwil neu bolau piniwn sy'n cael eu dyfynnu. Wrth adrodd, yn benodol, am sylw mewn papurau newydd i'r ymgyrch ac mewn adolygiadau o bapurau newydd, dylen nhw hefyd ystyried unrhyw safbwynt golygyddol goddrychol perthnasol.

Rhaid i unrhyw raglen neu gynnwys sy'n rhoi sylw i unrhyw un o'r etholiadau gyflawni amhleidioldeb priodol ymysg y pleidiau yn ystod yr ymgyrch gyfan.

Ym mhob etholiad, rhaid i'r BBC fod yn ofalus nad yw'n rhoi mantais annheg i ymgeiswyr, er enghraifft, lle bydd enw ymgeisydd yn cael ei ddangos ar bosteri neu rosglymau ac ati.

Os oes gan unrhyw un amheuaeth ynglŷn â sut mae hyn yn berthnasol i'w cynnwys nhw, dylent gysylltu â'r Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth a gofyn am gyngor.

4.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill (gan gynnwys refferendwm yr UE), yn San Steffan, yn Senedd Ewrop ac yng Nghynghorau'r DU yn ystod Cyfnod yr Etholiad

Nid digwyddiadau ynysig ydy'r etholiadau a bydd cyrff etholedig eraill yn parhau â'u gweithgarwch arferol yn ystod yr ymgyrch. Mae angen i gynhyrchwyr cynnwys gydymffurfio â gofyniad cyffredinol cywirdeb priodol ac amhleidioldeb priodol, a bod yn ymwybodol o ddylanwad posibl unrhyw sylw gwleidyddol arall ar yr ymgyrchoedd etholiadol.

Mae hyn yn berthnasol i bob adroddiad Seneddol yn ystod yr ymgyrchoedd; bydd rhywfaint o fusnes cynghorau hefyd yn parhau yn ystod cyfnod yr etholiad. Dylai'r rhain barhau i gael sylw yn y ffordd arferol, er ei bod yn rhaid bod yn ofalus wrth baratoi adroddiadau am unrhyw faterion a drafodir sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r etholiadau ar draws y DU sy'n cael eu trafod yn y Senedd neu gynghorau.

Rhaid i bob cynhyrchydd cynnwys gofio pa faterion sy'n dod o fewn cylch gwaith y gwahanol gyrff a sicrhau ei bod yn amlwg i'r gynulleidfa pa straeon sy'n effeithio ar etholiad. Dylen nhw hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw wleidyddion pleidiau eraill, gan gynnwys gweinidogion, gweinidogion yr wrthblaid a llefarwyr pleidiau eraill ac ASau yn San Steffan nad ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r etholiadau, ond sy'n ymyrryd mewn materion sy'n berthnasol i unrhyw un o'r etholiadau a sicrhau bod amhleidioldeb priodol yn cael ei gyflawni. Efallai fod rhai aelodau o gyrff etholedig eraill hefyd fod yn ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn; dylid gofalu i sicrhau nad oes anfantais annheg yn codi yn sgil eu rolau gwleidyddol eraill.

Os bydd cyfnod yr Etholiad yn gorgyffwrdd â Chyfnod y Refferendwm ynghylch aelodaeth o'r UE, bydd yn rhaid i gynhyrchwyr cynnwys hefyd ystyried y Canllawiau Refferendwm a sicrhau amhleidioldeb priodol o ran y ddwy bleidlais.

Os oes straeon newyddion mawr eraill, bydd angen gofal arbennig i sicrhau bod unrhyw elfen wleidyddol yn cael sylw cynhwysfawr, ond bod y sylw hwnnw hefyd yn adlewyrchu'r ffaith ei bod hi'n gyfnod etholiad. Bydd sut y cyflawnir hyn yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos. Er enghraifft, os bydd straeon mawr yn codi sydd y tu allan i gystadleuaeth rhwng pleidiau, mae modd sicrhau amhleidioldeb priodol drwy neilltuo mwy o amser i'r gwleidyddion hynny sy'n ymwneud fwyaf â'r peth, gan roi adroddiad llawn ar y datganiadau sy'n dweud wrth y gynulleidfa beth sy'n digwydd, ac, ar brydiau, i adlewyrchu dadleuon bywiog mewnol o fewn pleidiau ynglŷn â materion fel hyn.

4.4 Trefn Pleidiau

Bydd y drefn y bydd pleidiau'n ymddangos mewn pecynnau neu'n cael eu cyflwyno mewn trafodaethau fel rheol yn cael ei phenderfynu am resymau

golygyddol. Fodd bynnag, dylai gwneuthurwyr rhaglenni ofalu eu bod yn newid y drefn hon, pan fo'n briodol, er mwyn sicrhau na fydd patrwm sefydlog yn datblygu yn ystod yr ymgyrch. Weithiau mae modd bod yn deg - er enghraifft, mewn dadleuon - drwy dynnu enwau allan o het.

4.5 Eitemau lle na fydd gofyn o reidrwydd ichi drefnu cyfraniadau gan bleidiau neu gan ymgeiswyr eraill

O dan amgylchiadau eithriadol, caiff sylwadau gan ymgeiswyr sefyll ar eu pen eu hunain, heb gyfraniadau gwleidyddol eraill, lle gallai rhywun ymddangos yn ansensitif neu lle y gallai ymddangos bod syrcau cyfryngau ar waith. Gallai hyn gynnwys cyfweiliadau am drasiedi personol, trychineb cyhoeddus, neu lle bydd yr unigolyn dan sylw'n llygad-dyst i ddigwyddiad sydd yn y newyddion. Rhaid cyfeirio unrhyw gynig i ddefnyddio sylw fel hyn at uwch swyddog golygyddol ac at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

5 Tegwch i'r Ymgeiswyr - Cod Ymarfer

5.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (Etholaethau, Wardiau neu ardaloedd Heddlu)

Bwriad y canllawiau hyn ydy hybu dadl fywiog a rhoi mwy o amlygrwydd i ymgeiswyr yn gyffredinol heb roi mantais annheg i'r naill ymgeisydd neu'r naill blaid dros y llall.

Os bydd ymgeiswyr neu bleidiau'n gwrthod cymryd rhan mewn adroddiadau neu ddadleuon ynghylch etholaeth/ward/ardal, nid yw hynny'n golygu nad oes modd darlledu adroddiadau neu ddadleuon o'r fath.

Serch hynny, nid yw hyn yn gwanhau mewn unrhyw ffordd ddyletswyddau'r BBC o ran tegwch a sicrhau bod y gynulleidfa'n cael gwybod am holl brif linyddau'r ddadl: mewn achosion o'r fath dylid gofyn am ragor o gyngor gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Caiff rhaglenni benderfynu defnyddio naill ai ymgeiswyr neu eu cynrychiolwyr mewn eitemau. Ond, os gwahoddir un ymgeisydd i gymryd rhan, yna, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai'r lleill sy'n cymryd rhan fod yn ymgeiswyr hefyd (edrychwch isod [5.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg](#)). O dan amgylchiadau eithriadol, os nad yw ymgeisydd ar gael am resymau dilys, gellir cynnig y cyfle i gynrychiolydd plaid addas neu ddirprwy addas o'r ardal etholiadol ymddangos yn ei le (ee un o swyddogion y blaid neu asiant) ond dylid ei gwneud yn glir fel rheol i'r gynulleidfa fod yr ymgeisydd absennol wedi cael gwahoddiad ac egluro pam nad oedd modd iddo/iddi gymryd rhan. Os bydd plaid neu ymgeisydd yn methu â chyflwyno cynrychiolydd neu os bydd yn enwebu rhywun a allai fod yn annheg i'r ymgeiswyr eraill, mae modd i'r eitem/rhaglen fwrw ymlaen hebddyn nhw.

Dylai adroddiadau neu ddadleuon am ardal etholiadol benodol, fel ward cyngor, etholaeth neu ardal heddlu, roi sylw priodol i ymgeiswyr sydd wedi dangos cefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno (naill ai drwy eu hymgeisyddiaeth eu hunain neu un eu plaid). Mae hyn yn golygu os bydd unrhyw ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ardal etholiadol benodol,

yna dylai'r ymgeiswyr eraill hyn hefyd gael cyfle i gymryd rhan, neu gael cyfle tebyg ar draws cyfres o adroddiadau.

Rhaid cynnig sylw cymesur i'r ymgeiswyr neu i'r pleidiau nad ydyn nhw wedi dangos bod ganddyn nhw gefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno hefyd. Rhaid defnyddio crebwyll golygyddol i benderfynu sut mae modd cyflawni hynny, ond dylid ystyried y canlynol o leiaf:

Os oes adroddiadau ac eitemau byr, gan gynnwys rhai ar-lein, sy'n cyfeirio dim ond at rai o'r ymgeiswyr mewn ardal (neu ardaloedd) etholiadol, dylen nhw hefyd gyfeirio at restr ar-lein o'r holl ymgeiswyr a phleidiau sy'n sefyll (neu, os nad ydy'r broses enwebu wedi cau eto, at restr o'r ymgeiswyr hyd yn hyn). Os bydd adroddiad o'r fath yn cael ei ddarlledu sawl gwaith ar yr un sianel neu'r un orsaf, dylid cyfeirio at y rhestr ar-lein o ymgeiswyr bob tro ac o leiaf unwaith dylid dangos y rhestr yn weledol a/neu dylid cyfeirio ati ar lafar.

Ar gyfer eitemau neu raglenni hirach, fel dadleuon - os nad ydy'r holl ymgeiswyr yn cymryd rhan - (neu os nad oes rhestr ar-lein ar gael ar gyfer yr ardal etholiadol dan sylw), yna dylid rhestru'r ymgeiswyr, yn weledol a/neu ar lafar, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad at restr ar-lein lawn o'r ymgeiswyr.

Rhaid i gynhyrchwyr cynnwys sicrhau na fydd ymgeiswyr yn cael mantais annheg; er enghraifft, dylai gweithredwyr camerâu fod yn ofalus pan fydd enw ymgeisydd yn cael ei ddangos yn amlwg drwy bosteri neu rosglymau ayb.

Os oes gan ymgeiswyr swyddogaethau eraill – rhai gwleidyddol neu fel arall – dylid gofalu nad ydyn nhw'n ennill mantais annheg yn yr ymgyrch etholiadol ar draul ymgeiswyr eraill.

Cyn cau enwebiadau, mae angen i gynhyrchwyr cynnwys sicrhau amhleidioldeb priodol yng nghyswllt unrhyw gyfrannwr y mae disgwyl iddyn nhw sefyll fel ymgeisydd.

5.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau a rhaglenni ffonio sy'n ymwneud â materion penodol

Yn ogystal â dadleuon neu eitemau eraill sy'n defnyddio ymgeiswyr mewn etholaethau, wardiau neu ardaloedd heddlu, gall yr holl fathau o gynnwys ddefnyddio ystod briodol o ymgeiswyr o etholaethau neu wardiau gwahanol i gyd-drafod materion etholiadol. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd lle bydd hi'n briodol defnyddio ymgeiswyr ac unigolion nad ydyn nhw'n ymgeiswyr (er enghraifft, pan na fydd llefarydd ar ran plaid yn sefyll, neu ar gyfer dadleuon rhwng arweinwyr pleidiau.)

Caniateir cyfeiriadau rhesymol at enghreifftiau lleol mewn etholaeth, ward neu ardal heddlu, er enghraifft, at ysbytai, ysgolion lleol, enghreifftiau o drosedd ac ati, dim ond i hynny beidio ag arwain at annhegwch i ymgeisydd nad yw'n cymryd rhan.

Er mwyn sicrhau amhleidioldeb priodol, dylai'r ymgeiswyr neu'r pleidiau a fydd yn cael eu cynrychioli fod yn addas ar gyfer yr eitem. Mae pwy fydd yn cymryd rhan ac ym mha fformat, er enghraifft, mewn dadleuon, yn fater o

grebwyll golygyddol, ar yr amod bod hynny'n cael ei wneud gydag amhleidioldeb priodol yng nghyd-destun penodol cyfnod yr etholiad.

Bydd dewis unigolyn i gynrychioli plaid yn cael ei wneud ar sail olygyddol. Ond rhaid bod yn ofalus yn ystod yr ymgyrch i wneud yn siŵr nad yw un ymgeisydd yn cael gormod o ffafraeth ar draul pawb arall. Ni ddylai ymgeisydd sy'n cymryd rhan fel llefarydd cenedlaethol gael mantais annheg ar draul ymgeiswyr eraill wrth drafod materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ardal eu hetholaeth. Mae hyn yn gallu golygu rhoi gwybod iddyn nhw ymlaen llaw am ddyletswyddau amhleidioldeb priodol y BBC neu efallai bydd yn rhaid i gyflwynydd rhaglen fyw gamu i mewn yn gyflym, neu efallai bydd yn rhaid golygu'r darn cyn darlledu, yn ôl yr angen.

Efallai y bydd ymgeiswyr yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn rhaglenni ffonio i mewn am yr etholiad neu am faterion etholiadol. Ond, rhaid gwirio'r galwyr i weld a ydynt yn ymgeiswyr a rhaid iddi fod yn glir i'r gynulleidfa nad ydynt yn siarad fel aelodau cyffredin o'r cyhoedd ond fel cyfranwyr sydd ag agenda wleidyddol. Rhaid bod yn ofalus nad yw rhaglenni dros amser yn rhoi gormod o amlygrwydd i un blaid neu ormod o ffafriaeth i un ymgeisydd ar draul rhai eraill yn yr un ardal etholiadol. Rhaid cymryd gofal hefyd – a chael cyngor – yng nghyswllt unrhyw gyfraniad gan ymgeisydd yn ystod rhaglen ffonio i mewn neu raglen debyg nad yw'n ymwneud â'r etholiadau neu faterion gwleidyddol yn fwy cyffredinol.

Mae rhagor o gyngor ar gael am ddefnyddio ymgeiswyr gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

5.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg

Nid yw pob gwleidydd yng Nghymru yn medru'r Gymraeg. Os na fydd ymgeisydd yn siaradwr Cymraeg, caiff rhaglenni Radio Cymru a BBC Cymru ar gyfer S4C ddefnyddio ymgeiswyr a chynrychiolwyr eraill o'r blaid neu ddefnyddio rhywun arall priodol, gan gynnwys mewn rhaglenni am ardaloedd etholiadol penodol.

Ychydig iawn o wleidyddion sy'n siarad Gaeleg. Os na fydd plaid yn gallu dod o hyd i ymgeisydd sy'n siarad Gaeleg bydd rhaglenni BBC Radio nan Gàidheal a BBC Alba yn cael defnyddio ymgeiswyr a chynrychiolwyr pleidiau gwahanol neu ddirprwyon addas, gan gynnwys mewn rhaglenni am ardaloedd etholiadol penodol.

6. Cyfraniadau Ar Lein, ar Gyfryngau Cymdeithasol a gan y Cynulleidfaeodd

Bydd yr un canllawiau ag sy'n berthnasol ar gyfer rhaglenni'n berthnasol i gynnwys Golygyddol y BBC ar holl safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain yn berthnasol i gynnwys sain a fideo yn ogystal ag i gynnwys testun, ee blogiau, podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal ag i unrhyw gyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partion.

6.1 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Rhaid i staff golygyddol y BBC ac unrhyw un sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r etholiad osgoi peryglu amhleidioldeb y BBC neu niweidio enw da'r BBC drwy eu gweithredoedd, er enghraifft, drwy fynegi eu barn nhw eu hunain (neu gymeradwyo barn pobl eraill) am faterion gwleidyddol, naill ai ar wefannau personol neu ar gyfryngau cymdeithasol.

6.2 Cyfraniadau gan y gynulleidfa

Bydd cyfraniadau gan y gynulleidfa'n cynnig elfen 'yn y fan a'r lle' a 'rhyngweithiol' i allbwn darlledu'r BBC a'i allbwn ar y we. Mynegi barn yw'r cyfraniadau hyn ac nid ydyn nhw'n dangos cryfder y farn honno ar y naill ochr neu'r llall i gwestiwn. Rhaid dewis yr ystod i'w chynnwys i sicrhau amhleidioldeb priodol, nid dim ond ar sail pwysau gweithgarwch y gynulleidfa. Ond, rhaid inni beidio â cheisio sicrhau'r hyn y gellid ei ystyried yn gydbwysedd "artiffisial" drwy roi cyfrif camarweiniol ynglŷn â chryfder y farn, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol lle gall gweithgaredd nifer gymharol fach o bobl greu argraff anghymesur.

Gall cyfraniadau'r gynulleidfa ddod ar ffurf negeseuon testun, negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol neu e-bost, neu drwy ryw ddull rhyngweithiol arall, gan gynnwys "vox pop". Gall y rhain fod heb eu cymell, neu fe allant godi yn sgil galwad i weithredu, a hynny naill ai ar allbwn darlledu, ar-lein neu drwy gyfryngau cymdeithasol. Dylid egluro bob amser mai mynegiant o ddadl ydy unrhyw 'vox pops' neu sylw a ddefnyddir o safleoedd cyfryngau cymdeithasol, ac nid arwydd o gryfder y farn ar y naill ochr na'r llall. Felly, dylid cymryd gofal o ran lle mae 'vox pops' yn cael eu recordio neu le ymddangosodd y sylw ar gyfryngau cymdeithasol yn wreiddiol, ynghyd â sut cânt eu golygu i sicrhau yr adlewyrchir amrywiaeth briodol o safbwyntiau.

Sut bynnag y bydd y cyfraniadau hyn yn ein cyrraedd, dylai cynhyrchwyr cynnwys fynd ati'n drwyadl i gael gwybod beth yw tarddiad y deunyddiau a gynigir yn gyfraniadau gan y gynulleidfa a dylent ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn ddilys. Fe all fod angen sicrhau bod cyfraniad gan unigolyn sydd i bob golwg yn rhywun sydd yn llygad y cyhoedd yn gyfraniad dilys. Os bydd cyfraniadau o'r fath yn dod gan ymgeiswyr, rhaid nodi hynny'n glir.

Bydd pob dadl ynghylch yr etholiad a wneir ar-lein, boed hynny ar bbc.co.uk neu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol brand BBC yn cael ei chynnal yn drwyadl, eu cymedroli a'u hidlo'n briodol. Dylai'r rhannau hynny o bresenoldeb ar-lein y BBC na fyddant fel rheol yn ymwneud â materion gwleidyddol geisio cyngor gan y Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth, cyn cynnwys materion o'r fath.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn effro i ymgyrchoedd sy'n cael eu trefnu neu'n sy'n destun lobïo gan bleidiau, grwpiau pwyso, ymgeiswyr neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan, yn enwedig ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Os amheuir bod lobïo yn cael ei drefnu yn ystod Cyfnod yr Etholiad, efallai y gofynnir i gyfranwyr ddarparu manylion cysylltu er mwyn eu dilysu. Dylid ystyried yn ofalus yr effaith olygyddol a allai gael ei hachosi drwy lobïo o'r fath, ac a ddylid gweithredu strategaeth uwchraddio bbc.co.uk; efallai y bydd

angen, er enghraifft, rhoi'r modd cyn-gymedroli neu ddarllen-yn-unig ar waith ar fwrdd negeseuon.

Bydd yn rhaid i newyddiadurwyr a chymedrolwyr wneud penderfyniadau gofalus rhwng sylwadau sy'n ddadlau cadarn a rhai sy'n ddiffrïo personol. Y rheol gyffredinol y dylid ei defnyddio yw na ddylai sylwadau fod ar-lein neu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol brand BBC os na fyddem yn eu darlledu ar y radio neu'r teledu fel arfer. Bydd hidlyddion ar gyfer niwed a thramgwyddo a diffrïo personol yn gweithredu fel arfer, ond ni ddylid dibynnu ar eu defnyddio yn lle cymedroli/monitro effeithiol.

Oni fydd safleoedd nad ydynt yn safleoedd newyddion yn cynnal trafodaethau penodol ynglŷn â'r etholiad, dylent gyfeirio defnyddwyr sydd am drafod yr etholiad ar fyrdau negeseuon, neu mewn sylwadau at feysydd priodol y safle newyddion megis blogiau gwleidyddol neu erthyglau newyddion perthnasol.

6.3 Pleidleisio

Yn ystod Cyfnod yr Etholiad, ni fydd y BBC yn darlledu nac yn cyhoeddi nifer y cyfraniadau a dderbynnir ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch i amcangyfrif y gefnogaeth i unrhyw ochr neu blaid. Ni cheir cynnal pleidleisiau ar-lein er mwyn ceisio mesur y gefnogaeth i ymgyrch, i blaid, i wleidydd neu i fater polisi yn ystod Cyfnod yr Etholiad. Ni ddylid defnyddio dulliau ansoddol eraill ychwaith megis cyfrif nifer y negeseuon testun neu gyfraniadau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn pwysu a mesur lefel y gefnogaeth.

Rhaid i gynhyrchwyr sicrhau na chaiff pleidleisiau testun eu troi'n unrhyw beth y gellid ei ddehongli fel cynrychioliad o farn y cyhoedd yn gyffredinol, nac o farn y BBC. Rhaid trafod unrhyw gynnig i gynnal pleidlais negeseuon testun ar unrhyw fater gwleidyddol a allai effeithio ar unrhyw un o'r etholiadau gyda'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at uwch swyddog golygyddol perthnasol yr adran ac ITACU.

6.4 Rhaglenni â Chynulleidfaoedd, gan gynnwys Dadleuon

Dylai unrhyw raglen, neu gyfres o raglenni (ee wedi'u trefnu ar draws radio lleol neu deledu rhanbarthol) sy'n delio â'r etholiadau ac sy'n bwriadu defnyddio cynulleidfa fyw ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth i drafod y broses o ddethol y gynulleidfa a sut mae sicrhau amhleidioldeb priodol. Rhaid i bob gweithdrefn o'r fath allu gwrthsefyll craffu gan y cyhoedd.

Nid oes un ffordd o gasglu cynulleidfa ynghyd ar gyfer y mathau hyn o raglenni. Bydd angen i gynhyrchwyr ystyried sawl ffactor gwahanol, megis y fformat – ee rôl y gynulleidfa, pwy fydd ar y panel, yr ardal ddaearyddol ac ati. Yr hyn sydd bwysicaf ydy – o ran golygyddiaeth – bod pob rhaglen wedi gwneud penderfyniad gofalus am degwch ac amhleidioldeb yn yr amgylchiadau arbennig hynny.

6.5 Deunydd gan bleidiau neu gan ymgeiswyr

Fel rheol, ni fydd BBC News Online yn cynnig dolenni yn uniongyrchol at ddeunydd sy'n gysylltiedig ag etholiadau ar wefannau pleidiau gwleidyddol nac ar wefannau ymgeiswyr unigol, oni fydd cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny (ee stŵr sydd wedi'i achosi gan ffigwr amlwg yn cyhoeddi polisi ar ei wefan yn gwrth-ddweud y maniffesto sydd ar wefan y blaid), ac wedyn, dim ond am gyfnod cyfyngedig y bydd yn cael ei hyrwyddo, a rhaid cofio unrhyw ystyriaethau ynglŷn ag amhleidioldeb.

Bydd BBC News Online yn rhestru dolenni i'r holl safleoedd sydd ar gael gan bleidiau, ar yr amod nad yw hyn yn achosi pryder mawr bod hyn yn torri [Canllawiau Niwed a Sarhad y BBC](#) neu'r gyfraith ee difenwi neu annog casineb hiliol.

<http://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/page/guidelines-harm-introduction/>

Rhaid i unrhyw areithiau neu ddeunyddiau eraill sy'n cael eu cyhoeddi neu eu cyfrannu gan ymgeiswyr neu bleidiau, ac sy'n cael sylw llawn neu rannol, eu dethol ar sail eu gwerth fel newyddion, gan gofio bod angen rhoi sylw i ystod briodol o ddeunyddiau o'r fath er mwyn sicrhau amhleidioldeb dyladwy.

7 Polau a phroffion barn eraill

Dylid darllen Adran 6 o'r Canllawiau Etholiad, lle bo hynny'n briodol, ar y cyd â Phennod 10 o'r Canllawiau Golygyddol a'r Arweiniad Polisi Golygyddol "[Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau, Polau ar Antur](#)", sydd ar gael ar y wefan Polisi Golygyddol.

7.1 Adrodd am Bolau

Yn ystod yr ymgyrch, dylid ystyried tri ffactor allweddol wrth adrodd ar bolau piniwn:

- maen nhw'n rhan o stori'r ymgyrch a dylai cynulleidfaoedd gael gwybod amdany'n nhw pan fo hynny'n briodol;
- mae cyd-destun yn hanfodol, a rhaid i ni sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir wrth adrodd amdany'n nhw'n gywir ac yn briodol;
- gall polau fod yn anghywir – mae peryglon go iawn yn gysylltiedig ag adrodd am y polau sy'n werth rhoi sylw iddyn nhw o ran newyddion yn unig – hy y rheini sydd, ar eu pennau eu hunain, yn dangos newid dramatig. Gall tueddiadau sy'n ymddangos yn gyson fod yn anghywir hyd yn oed, neu gallan nhw fethu dweud y stori gyfan

Felly, mae angen dilyn y rheolau cyffredinol a'r arweiniad sy'n berthnasol i adrodd am bolau yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Sef:

- peidio â dechrau rhaglen na bwletin newyddion dim ond gyda chanlyniadau pŵl piniwn (yn enwedig un pŵl bwriad pleidleisio);

- peidio â rhoi canlyniadau un pŵl bwriad pleidleisio mewn pennawd ar gynnyrch sy'n cael ei ddarlledu, oni bai eu bod yn arwain at stori sy'n haeddu pennawd ynddi'i hun a bod angen cyfeirio at ganfyddiadau'r pŵl er mwyn iddi wneud synnwyr;
- peidio â dibynnu ar y ffordd y mae'r sefydliad neu'r cyhoeddiad a gomisiynodd y pŵl yn dehongli ei ganlyniadau, ond ffurfio ein safbwynt ein hunain drwy edrych ar y cwestiynau, y canlyniadau a'r duedd;
- adrodd am ganfyddiadau polau bwriad pleidleisio yng nghyd-destun tuedd. Gall y duedd gynnwys canlyniadau pob prif bŵl dros gyfnod neu ddim ond y newid yng nghanfyddiadau un poliwr. Dylai canlyniadau polau sy'n mynd yn groes i dueddiadau heb eglurhad argyhoeddiadol gael eu trin ag amheuaeth a gofal arbennig;
- peidio â defnyddio iaith sy'n rhoi mwy o hygyrdd i'r polau nag y maent yn ei haeddu: mae polau yn "awgrymu" ond byth yn "profi" nac hyd yn oed yn "dangos"; mae'n bwysig na fydd crebwyll golygyddol arall - ee pa agweddau o'r etholiad sy'n gallu cael rhagor o sylw - yn dibynnu gormod ar yr hyn mae'r polau'n ei ddangos i bob golwg.
- cynnwys y lwfans gwallau disgwylidig yn yr adroddiad os yw'r bwlch rhwng y rhai sy'n sefyll o fewn y lwfans hwnnw. Ar y teledu ac ar-lein, dylai graffigion ddangos maint y lwfans gwall *bob amser*;
- enwi'r sefydliad a gynhaliodd y pŵl a'r sefydliad neu'r cyhoeddiad a'i comisiynodd;

Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth adolygu papurau newydd; fel rheol ni ddylid defnyddio un pŵl fel prif eitem adolygiad papur newydd a dylid bob tro ategu hynny â brawddeg o gyd-destun (ee: "mae hynny ychydig yn groes i bolau eraill yr wythnos yma").

Ni cheir cyhoeddi pŵl piniwn ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth nac â'r etholiadau ar y diwrnod pleidleisio (o 00.30 ymlaen) nes bod y gorsafoedd wedi cau.

7.2 Comisiynu Polau

Ni fydd y BBC yn comisiynu polau piniwn bwriadau-pleidleisio yn ystod cyfnodau etholiadau. Mae'r Canllawiau Golygyddol yn dweud bod yn rhaid i "unrhyw gynig i gomisiynu pŵl piniwn am wleidyddiaeth neu am unrhyw bwnc arall ym maes polisi cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o wasanaethau'r BBC gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth i'w gymeradwyo".

Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw unrhyw bŵl a gomisiynir gan y BBC yn cael ei ddefnyddio i awgrymu safbwynt y BBC ar bolisi neu fater penodol. Gellir comisiynu pŵl i helpu i wella dealltwriaeth y gynulleidfa o bwnc dadleuol cyfredol, ond ni ddylid ei ddefnyddio i awgrymu bod y BBC yn ymyrryd mewn pwnc dadleuol cyfredol.

8 Cyfweliadau ag Arweinwyr Pleidiau

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn nodi bod yn rhaid i unrhyw gynnig i gyfweled ag unrhyw un o arweinyddion prif bleidiau'r DU neu i roi proffil ohonynt gael ei gyfeirio ymlaen llaw i'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. Mae'r Canllawiau hefyd yn datgan ar gyfer BBC Cymru, BBC Scotland a BBC Northern Ireland, dylid hefyd cyfeirio at y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes perthnasol yng nghyswllt arweinwyr pleidiau yn y gwledydd. Rhaid cyfeirio cynigion o gyfweliadau o'r fath gan y pleidiau cyn bod modd eu derbyn. Mae'r cyfeirio gorfodol hwn yn arbennig o bwysig yn ystod ymgyrchoedd yr etholiadau hyn.

9 Y Diwrnod Pleidleisio

Ni roddir sylw i unrhyw un o ymgyrchoedd yr etholiad ar y diwrnod pleidleisio, o 00.30 tan y mae'r gorsafoedd pleidleisio'n cau am 22.00, ar y teledu, ar y radio, ar bbc.co.uk neu ar ein sianeli swyddogol ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill. Ni fydd yn rhaid i safleoedd ar-lein ddileu adroddiadau archif.

Dylid cymryd gofal arbennig hefyd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bersonol ar y diwrnod pleidleisio.

Cyfyngir y sylw ar y diwrnod i adroddiadau ffeithiol heb gynnwys dim mae modd ystyried ei fod yn dylanwadu ar y pleidleisio.

Ni cheir cyhoeddi pŵl piniwn am unrhyw bwnc sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth nac â'r etholiad ar y diwrnod pleidleisio nes bydd y gorsafoedd wedi cau.

Tra mae'r gorsafoedd pleidleisio ar agor, mae'n drosedd darlledu dim ynglŷn â sut mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiadau.

10 Cwynion

Bydd cwynion yn cael sylw ar y lefel briodol o olygyddion rhaglen i fyny. Y nod ydy sicrhau bod ymateb y BBC yn gyson, yn gadarn ac yn gyflym, ni waeth a yw'r gŵyn wedi dod drwy Wasanaethau Cynulleidfa'r BBC, yn uniongyrchol at raglen neu at ohebydd neu newyddiadurwr unigol, a hynny gan wleidydd neu aelod o'r cyhoedd (a all fod yn ymgyrchydd gwleidyddol neu beidio), gan uwch swyddog plaid neu gan ymgeisydd unigol.

Dyna pam, fel rheol, pan ddaw cwyn ffurfiol i law, y dylid cofnodi'r manylion a'i chyfeirio at y person priodol cyn rhoi unrhyw ymateb cychwynnol - ac eithrio cydnabyddiaeth ac amserlen – i'r achwynydd.

Dylai unrhyw un sydd am gael rhagor o gyngor ynglŷn â dilyn y Canllawiau hyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Ric Bailey

Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth

E-bost: ric.bailey@bbc.co.uk

Atodiadau - Canllawiau ar Sylw i Bleidiau ac i Ymgeiswyr

Mae pob adran yn benodol i allbwn yn y wlad neu'r rhanbarth perthnasol – mae pob adran yn berthnasol i'r holl allbwn sydd ar gael ar draws y DU, oni nodir yn wahanol.

Cyflwyniad	19
Atodiad 1. Yr Alban	19
A1.1 Sylw	19
A1.2 Y Pleidiau Mwy yn yr Alban	20
A1.3 Y Pleidiau Llai yn yr Alban	20
A1.4 Ymgeiswyr Annibynnol	21
A1.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol yn yr Alban (edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol).....	22
Atodiad 2, Cymru	22
A2.1 Sylw	22
A2.2 Y Pleidiau Mwy yng Nghymru.....	22
A2.3 Y Pleidiau Llai yng Nghymru	22
A2.4 Ymgeiswyr Annibynnol	23
A2.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yng Nghymru (edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol).....	24
Atodiad 3, Gogledd Iwerddon	24
A3.1 Sylw	24
A3.2 Y Pleidiau Mwyaf yng Ngogledd Iwerddon	24
A3.3 Y Pleidiau Llai yng Ngogledd Iwerddon	24
A3.4 Ymgeiswyr Annibynnol	25
A3.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon - edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol.....	26
Atodiad 4. Llundain	26
A4.1 Sylw	26
A4.2 Y Pleidiau Mwy yn Llundain.....	26
A4.3 Pleidiau Llai	27
A4.4 Ymgeiswyr Annibynnol	27
A4.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yn Awdurdod Llundain Fwyaf - edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol.....	28
Atodiad 5 Llywodraeth Leol yn Lloegr (y tu allan i Lundain)	28
A5.1 Sylw	28
A5.2 Y Pleidiau Mwy yn Lloegr	29
A5.3 Y Pleidiau Llai yn Lloegr	29
A5.4 Ymgeiswyr Annibynnol	29
Atodiad 6 Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr	30
A6.1 Sylw	30
A6.2 Pleidiau ac Ymgeiswyr	30
A6.3 Cyd-destun cefnogaeth mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr – edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol.	31
*Atodiad 7 Rhaglenni Rhwydwaith Priodol	32

Cyflwyniad

Mae penderfynu ar y lefelau priodol o sylw i ymgeiswyr gwahanol mewn etholiadau, sy'n derbyn lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn gofyn, yn bennaf, am grebwyll golygyddol diduedd a da. Bydd gwahaniaethau dilys yn y dehongliad a'r defnydd ar gyfer fformatau a rhaglenni gwahanol. Mae'r canllawiau canlynol wedi cael eu hanelu at sicrhau bod lefelau priodol o sylw, yn cael eu rhoi gyda rhywfaint o lefel sylfaenol ar gyfer y pleidiau llai ac i'r ymgeiswyr annibynnol – nid ydyn nhw'n gosod trothwy uchaf. Mae cyngor ar gael, ar sail achos wrth achos, gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn yr ymgyrch a drwy gydol yr ymgyrch.

Felly, er bod rhaid i bob gwasanaeth sicrhau bod y sylw y bydd yn ei roi yn gymesur o ran y pleidiau a'r ymgeiswyr, y dylai hwnnw gael ei drin fel arweiniad yn hytrach nac fel fformiwla fathemategol gaeth. Ond, rhaid cael rhesymau golygyddol da dros unrhyw amrywiad o bwys ac ni chaiff y rhain ddisodli'r brif rwymedigaeth am degwch ac amhleidioldeb dyladwy.

Dylai maint cymharol y sylw a roddir i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol ymhob ardal etholiadol (er enghraifft, ar draws gwlad neu mewn etholaeth unigol) adlewyrchu lefelau'r gefnogaeth ymysg etholwyr yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd yn yr ardal etholiadol honno. Wrth ystyried hyn, a chan gadw mewn cof leoliad y gynulleidfa arfaethedig, er y cymerir y perfformiad yn yr etholiad cyfatebol diwethaf yn nhermau cynrychiolaeth a chyfran o'r bleidlais fel man cychwyn, rhaid rhoi sylw dyladwy i'r ffactorau canlynol:

- perfformiad mewn etholiadau dilynol, lle bo hynny'n berthnasol
- tystiolaeth berthnasol arall o gefnogaeth gan etholwyr ar hyn o bryd
- nifer yr ymgeiswyr y mae plaid yn eu darparu ar gyfer yr etholiad
- unrhyw faterion gwleidyddol perthnasol, megis partneriaethau etholiadol, pleidiau newydd, cytundebau clymbleidio ac ati.

Bydd hi'n dal yn bosibl diwygio'r Arweiniad hwn ar sail unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd o gefnogaeth wleidyddol gyfredol hyd y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau.

Atodiad 1. Yr Alban

Sylwer: Bydd Cyfnod yr Etholiad yn yr Alban yn dechrau ar 23^{ain} Mawrth - cyn Cyfnod yr Etholiad ar gyfer rhai etholiadau eraill yn y DU ar 5ed Mai.

A1.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu yn yr Alban (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw

i etholiadau seneddol yr Alban: ynghylch y wlad i gyd, ynghylch etholaeth neu ranbarth unigol, neu grŵp o etholaethau neu ranbarthau.

A1.2 Y Pleidiau Mwy yn yr Alban

Y pleidiau a sicraodd gynrychiolaeth sylweddol ar draws yr Alban yn etholiad Seneddol 2011 oedd:

Plaid Genedlaethol yr Alban, Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Gan gofio'u cyfran o'r bleidlais yn 2011, a dros gyfres o fathau gwahanol o etholiadau, dylai'r pleidiau hyn gael sylw gweddol debyg.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried pa feysydd polisi sydd wedi'u datganoli a pha rai y mae Senedd yr Alban yn gyfrifol amdanynt, ac felly sy'n uniongyrchol berthnasol yn yr etholiad hwn.

Dylai rhaglenni newyddion rhwydwaith priodol* (ar draws y DU) ystyried pwysigrwydd etholiad Senedd yr Alban yn enwedig o ran eu cynulleidfa yn yr Alban mewn perthynas â'r etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd.

*edrychwch ar Atodiad 7

A1.3 Y Pleidiau Llai yn yr Alban

Yr unig blaid arall sy'n cael ei chynrychioli yn Senedd yr Alban ar hyn o bryd ydy Plaid Werdd yr Alban. Bydd y gynulleidfa yn disgwyl i ni adrodd ar eu hymgyrch nhw yn fwy nag ymgyrchoedd pleidiau llai eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli. Ers 2011 mae UKIP wedi dangos bod ganddi fwy o gefnogaeth yn yr Alban a dylid adlewyrchu hyn hefyd drwy roi sylw hyd at lefel sy'n debyg i'r sylw a roddir i'r Blaid Werdd yn yr Alban.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol i bob un o'r Pleidiau Llai, a gan gofio sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiad 2011 ac etholiadau gwahanol ers hynny, dylen ni hefyd gymryd sylw o'r dystiolaeth gyfredol, fel patrwm cyson mewn polau piniwn.

Ar ben hynny, efallai y bydd amgylchiadau – er enghraifft, yng nghydestun posibl "Ilunio clymblaid" – sy'n golygu ei bod hi'n briodol yn olygyddol i unrhyw un neu ragor o'r Pleidiau Llai gael sylw ychwanegol. Mae modd ystyried newidiadau eraill mewn amgylchiadau gwleidyddol perthnasol ers 2011 hefyd.

Yn BBC Scotland, dylai rhaglenni sicrhau bod Plaid Werdd yr Alban yn cael cyfran gymesur o'r sylw bob wythnos. Pan fydd y pleidiau mwy yn ymddangos yn rheolaidd, dylai'r Blaid Werdd ymddangos o leiaf unwaith yr wythnos ar bob dilyniant rhaglen priodol.

Dylai unrhyw blaid arall sy'n sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o gyfanswm y seddi sydd ar gael mewn etholiad yn yr Alban (hy 22 sedd etholaeth) neu sy'n cynnig o leiaf 4 ymgeisydd yn yr 8 rhestr ranbarthol gael sylw i lansiad eu maniffesto o leiaf (neu ddigwyddiad cyfatebol) ar Reporting Scotland ac An Là ar y teledu ac ar Good Morning Scotland ac Aithris an Fheasgair ar y radio, yn ogystal ag ar-lein.

Os bydd rhaglenni eraill yn penderfynu rhoi sylw iddyn nhw bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn gyson a thrin pob plaid arall sy'n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur.

Dylai'r egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i'r sylw ar gyfer y Pleidiau Llai ar lefel yr Alban i gyd hefyd gael eu defnyddio mewn unrhyw eitemau rhaglenni sy'n seiliedig ar ranbarth penodol a defnyddio ymgeiswyr rhestr. Bydd cryfderau cymharol y pleidiau yn amrywio o un rhanbarth i'r llall ac unwaith eto bydd modd cael cyngor gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, a fydd yn gweithio gyda BBC Scotland i helpu i ffurfio'r farn hon.

Bydd y gynulleidfa'n cael ei chyfeirio, fel sy'n briodol, at y rhestr lawn o bleidiau sy'n sefyll ar BBC News Online Scotland.

A1.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Mae tri ASA annibynnol yn eistedd yn y Senedd ar hyn o bryd. Mewn etholaethau neu ranbarthau lle mae ASAu Annibynnol yn eistedd ar hyn o bryd (gan gynnwys "dim ymlyniad i blaid"), os bydd yr ymgeiswyr hynny'n sefyll eto, bydd y gynulleidfa'n disgwyl i ni roi mwy o sylw iddyn nhw nag i ymgeiswyr annibynnol nad ydyn nhw wedi cael eu hethol o'r blaen. Dylai pob un gael sylw cymesur, gan ystyried y dystiolaeth gyfredol yn ogystal â chefnogaeth etholiadol yn y gorffennol mewn unrhyw adroddiadau am etholaeth neu ranbarth.

Bydd pob adroddiad am etholaeth neu ranbarth yn cyfeirio at y rhestr ar-lein, a fydd yn cynnwys yr holl ymgeiswyr annibynnol. Y cyfeiriad hwn ydy'r isafswm ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, ac os oes tystiolaeth gyfredol briodol neu gyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny mae modd rhoi mwy o sylw i un ymgeisydd annibynnol neu fwy.

Serch hynny, rhaid bod yn ofalus i sicrhau na fydd unrhyw ymgeiswyr o'r fath sydd â phroffil personol sy'n haeddu sylw yn y newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais sylweddol iddyn nhw ar draul ymgeiswyr eraill yn yr un etholaeth neu ranbarth.

Dylai cynnyrch perthnasol ystyried ym mha gyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bydd ymgeisydd annibynnol yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth i blaid wleidyddol, neu lle bydd grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn cydweithio, boed hynny ar fanifesto cyffredin neu fel arall; y nod fydd sicrhau y rhoddir gwybodaeth glir a chywir i'r gynulleidfa ac y rhoddir sylw priodol i'r gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Mae rhagor o gyngor am roi sylw i bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol ar gael gan y Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth.

A1.5 Cyd-destun cefnogaeth etholiadol yn yr Alban (edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol)

Atodiad 2, Cymru

A2.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu yng Nghymru (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw i etholiadau Cynulliad Cymru: ynghylch y wlad i gyd, ynghylch etholaeth neu ranbarth unigol, neu grŵp o etholaethau neu ranbarthau.

A2.2 Y Pleidiau Mwy yng Nghymru

Y pleidiau a sicrhodd gynrychiolaeth sylweddol ar draws Cymru yn etholiad y Cynulliad yn 2011 oedd:

- Llafur, y Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Mewn etholiadau dilynol, gan gynnwys etholiad Ewrop a'r etholiad Cyffredinol, mae UKIP wedi dangos bod ganddyn nhw lawer iawn o gefnogaeth etholiadol yng Nghymru.

Dylid rhoi sylw gweddol debyg i'r bum blaid.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried pa feysydd polisi sydd wedi'u datganoli a pha rai y mae Cynulliad Cymru yn gyfrifol amdanynt, ac felly sy'n uniongyrchol berthnasol yn yr etholiad hwn.

Dylai newyddion rhwydwaith priodol* (ar draws y DU) ystyried pwysigrwydd etholiad Cynulliad Cymru yn enwedig o ran eu cynulleidfa yng Nghymru mewn perthynas â'r etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd.

*edrychwch ar Atodiad 7

A2.3 Y Pleidiau Llai yng Nghymru

Nid oes unrhyw bleidiau eraill yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol i bob un o'r Pleidiau Llai, a gan gofio sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiad 2011 ac etholiadau gwahanol ers hynny, dylen ni hefyd gymryd sylw o'r dystiolaeth gyfredol, fel patrwm cyson mewn polau piniwn.

Ar ben hynny, efallai y bydd amgylchiadau – er enghraifft, yng nghydestun posibl "llunio clymblaid" – sy'n golygu ei bod hi'n briodol yn olygyddol i unrhyw un neu ragor o'r Pleidiau Llai gael sylw ychwanegol. Mae modd ystyried newidiadau eraill mewn amgylchiadau gwleidyddol perthnasol ers 2011 hefyd.

Dylai unrhyw blaid sy'n sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o gyfanswm y seddi sydd ar gael mewn etholiad yng Nghymru (hy deg sedd etholaeth) neu sy'n cynnig o leiaf 4 ymgeisydd yn y 5 rhestr ranbarthol gael sylw i lansiad eu manifesto o leiaf ar Wales Today a Newyddion ar y teledu ac ar Good Morning Wales a'r Post Cyntaf ar y radio, yn ogystal ag ar-lein.

Os bydd rhaglenni eraill yn penderfynu rhoi sylw iddyn nhw bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn gyson a thrin pob plaid arall sy'n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur.

Dylai'r egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i'r sylw ar gyfer y Pleidiau Llai ar lefel Cymru i gyd hefyd gael eu defnyddio mewn unrhyw eitemau rhaglenni sy'n seiliedig ar ranbarth penodol a defnyddio ymgeiswyr rhestr. Bydd cryfderau cymharol y pleidiau yn amrywio o un rhanbarth i'r llall ac unwaith eto bydd modd cael cyngor gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, a fydd yn gweithio gyda BBC Cymru i helpu i ffurfio'r farn hon.

Bydd y gynulleidfa'n cael ei chyfeirio, fel sy'n briodol, at y rhestr lawn o bleidiau sy'n sefyll ar BBC News Online Wales a BBC Cymru Fyw.

A2.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Bydd pob adroddiad am etholaeth neu ranbarth yn cyfeirio at y rhestr ar-lein, a fydd yn cynnwys yr holl ymgeiswyr annibynnol. Y cyfeiriad hwn ydy'r isafswm ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, ac os oes tystiolaeth gyfredol briodol dros wneud hynny mae modd rhoi mwy o sylw i un ymgeisydd annibynnol neu fwy.

Serch hynny, rhaid bod yn ofalus i sicrhau na fydd unrhyw ymgeiswyr o'r fath sydd â phroffil personol sy'n haeddu sylw yn y newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais sylweddol iddyn nhw ar draul ymgeiswyr eraill yn yr un etholaeth neu ranbarth.

Dylai cynnyrch perthnasol ystyried ym mha gyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bydd ymgeisydd annibynnol yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth i blaid wleidyddol, neu lle bydd grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn cydweithio, boed hynny ar fanifesto cyffredin neu fel arall; y nod fydd sicrhau y rhoddir gwybodaeth glir a chywir i'r gynulleidfa ac y rhoddir sylw priodol i'r gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Mae rhagor o gyngor am roi sylw i bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol ar gael gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

A2.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yng Nghymru (edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol)

Atodiad 3, Gogledd Iwerddon

A3.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu yng Ngogledd Iwerddon (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw i etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon: ynghylch y wlad i gyd, ynghylch etholaeth unigol, neu grŵp o etholaethau.

A3.2 Y Pleidiau Mwyaf yng Ngogledd Iwerddon

Y pleidiau a sicrhodd gynrychiolaeth sylweddol ar draws Gogledd Iwerddon yn etholiad y Cynulliad yn 2011 oedd:

- Yr Unoliaethwyr Democratiaidd, Sinn Fein, Plaid Unoliaethol Ulster, yr SDLP a'r Blaid Gynghreiriol.

Gan ystyried cyfran y bleidlais a lefel y gynrychiolaeth a enillwyd yn 2011, dylai rhaglenni ar draws y DU sy'n adrodd ar yr etholiad fel y mae'n effeithio ar Gogledd Iwerddon roi lefelau tebyg o sylw i'r Unoliaethwyr Democratiaidd a Sinn Fein. Dylid hefyd roi lefelau priodol o sylw i Blaid Unoliaethol Ulster a'r Blaid Gynghreiriol mewn cynnyrch sy'n cynnwys y ddwy blaid fwyaf, hyd at a gan gynnwys lefelau tebyg o sylw.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys ystyried pa feysydd polisi sydd wedi'u datganoli a pha rai y mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gyfrifol amdanynt, ac felly sy'n uniongyrchol berthnasol yn yr etholiad hwn.

Dylai rhaglenni newyddion rhwydwaith priodol* (ar draws y DU) ystyried pwysigrwydd etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn enwedig o ran eu cynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â'r etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd.

*edrychwch ar Atodiad 7

A3.3 Y Pleidiau Llai yng Ngogledd Iwerddon

Caiff pedair plaid arall ei chynrychioli yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, pob un ag un sedd: NI21, Plaid Werdd Gogledd Iwerddon, TUV ac UKIP. Bydd y

gynulleidfa yn disgwyl y bydd ymgyrchoedd y pleidiau hyn – yn enwedig y rheini sy'n cynnig o leiaf 18 o ymgeiswyr (un rhan o chwech o'r seddi sydd ar gael) – yn cael mwy o sylw nag ymgyrchoedd y pleidiau llai sydd heb gael eu cynrychioli.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol ar gyfer pob un o'r Pleidiau Llai, bydd BBC Northern Ireland yn ystyried sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiad 2011, mewn etholiadau gwahanol ers hynny a'r dystiolaeth gyfredol o gefnogaeth etholiadol, yn ogystal â newidiadau eraill mewn amgylchiadau gwleidyddol perthnasol ers 2011.

Dylai pob plaid sy'n cynnig o leiaf 10 o ymgeiswyr³ gael sylw o leiaf i lansiad eu maniffestos (neu ddiwyddiad cyfatebol) ar BBC Newsline 1830 ar y teledu ac Evening Extra ar y radio, yn ogystal ag ar-lein. Dylid hefyd eu cynnwys mewn o leiaf un eitem fawr ar raglenni BBC Northern Ireland priodol yn ystod yr ymgyrch.

Os bydd rhaglenni eraill yn penderfynu rhoi sylw iddyn nhw bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn gyson a thrin pob plaid arall sy'n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur.

Dylai'r egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i'r sylw ar gyfer y Pleidiau Llai ar lefel Gogledd Iwerddon i gyd hefyd gael eu defnyddio mewn unrhyw eitemau rhaglenni sy'n seiliedig ar etholaeth benodol. Bydd cryfderau cymharol y pleidiau yn amrywio ac unwaith eto bydd modd cael cyngor gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, a fydd yn gweithio gyda BBC Northern Ireland i helpu i helpu i ffurfio'r farn hon.

Bydd y gynulleidfa'n cael ei chyfeirio, fel sy'n briodol, at y rhestr lawn o bleidiau sy'n sefyll ar BBC News Online Northern Ireland.

A3.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Mae dau MLA annibynnol yn eistedd yn y Cynulliad ar hyn o bryd. Mewn etholaethau neu ranbarthau lle mae MLAs annibynnol yn eistedd ar hyn o bryd, os bydd yr ymgeiswyr hynny'n sefyll eto, bydd y gynulleidfa'n disgwyl i ni roi mwy o sylw iddyn nhw nag i ymgeiswyr annibynnol nad ydyn nhw wedi bod yn MLAs o'r blaen. Dylai pob un gael sylw cymesur, gan ystyried y dystiolaeth gyfredol yn ogystal â chefnogaeth etholiadol yn y gorffennol mewn unrhyw adroddiadau ynghylch etholaeth.

Bydd pob adroddiad am etholaeth yn cyfeirio at y rhestr ar-lein, a fydd yn cynnwys yr holl ymgeiswyr annibynnol. Y cyfeiriad hwn ydy'r isafswm ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, ac os oes tystiolaeth gyfredol briodol neu gyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny mae modd rhoi mwy o sylw i un ymgeisydd annibynnol neu fwy.

Serch hynny, rhaid bod yn ofalus i sicrhau na fydd unrhyw ymgeiswyr o'r fath sydd â phroffil personol sy'n haeddu sylw yn y newyddion yn cael sylw

³ Eto i'w gadarnhau

anghymesur a fyddai'n rhoi mantais sylweddol iddyn nhw ar draul ymgeiswyr eraill yn yr un etholaeth.

Dylai cynnyrch perthnasol ystyried ym mha gyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bydd ymgeisydd annibynnol yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth i blaid wleidyddol, neu lle bydd grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn cydweithio, boed hynny ar fanifesto cyffredin neu fel arall; y nod fydd sicrhau y rhoddir gwybodaeth glir a chywir i'r gynulleidfa ac y rhoddir sylw priodol i'r gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Mae rhagor o gyngor am roi sylw i bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol ar gael gan y Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth.

A3.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yng Ngogledd Iwerddon - edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol

Atodiad 4. Llundain

Sylwer: Bydd Cyfnod yr Etholiad yn Llundain yn dechrau ar 21ain Mawrth - cyn Cyfnod yr Etholiad ar gyfer pob etholiadau arall yn y DU ar 5ed Mai.

A4.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu yn Llundain (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw i etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf: naill ai ar gyfer ethol y Maer neu etholiadau Cynulliad Llundain - yn eu cyfanrwydd neu fesul etholaeth unigol neu grŵp o etholaethau.

A4.2 Y Pleidiau Mwy yn Llundain

Y pleidiau a gafodd y lefelau uchaf o gefnogaeth etholiadol yn etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf 2012 oedd y Ceidwadwyr a Llafur.

Gan gofio lefel y gefnogaeth etholiadol a gawsant yn 2012, a dros gyfres o fathau gwahanol o etholiadau, dylai'r ddwy blaid gael lefelau gweddol debyg o sylw pan fydd hynny'n ymwneud yn uniongyrchol ag etholiadau 2016 Awdurdod Llundain Fwyaf.

Yr unig bleidiau eraill a enillodd gynrychiolaeth yn etholiadau 2012 Awdurdod Llundain Fwyaf oedd y Blaid Werdd a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gan gofio lefel y gefnogaeth etholiadol a gawsant yn 2012, a dros gyfres o fathau gwahanol o etholiadau, dylai'r ddwy blaid hyn gael lefelau gweddol debyg o sylw pan fydd hynny'n ymwneud yn uniongyrchol ag etholiadau 2016 Awdurdod Llundain Fwyaf.

Mewn rhai rhaglenni a fformatau, mae modd i'r pedair plaid gael lefelau tebyg o sylw. Mae hyn yn cynnwys dadleuon, eitemau yn rhoi sylw i bolisiâu

gwahanol, yn ogystal â dilyniannau o gyfweiliadau gyda'r ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn Faer neu ffigurau neu ymgeiswyr eraill sy'n uchel yn y blaid.

A4.3 Pleidiau Llai

Dylai pleidiau eraill sydd yn:

- cynnig ymgeisydd yn yr Etholiad am Faer
A
naill ai
- yn cynnig ymgeiswyr ym mhob etholaeth ar gyfer Cynulliad Llundain
neu
- yn cynnig llechen lawn o ymgeiswyr yn y rhestr atodol ar gyfer Cynulliad Llundain

gael sylw i lansiad eu maniffesto/eu hymgyrch etholiadol (neu ddigwyddiad cyfatebol) ar BBC London ar y teledu ac ar y radio, yn ogystal ag ar-lein.

Pan fydd y pleidiau mwy yn cael sylw rheolaidd, dylai'r pleidiau eraill hyn gael sylw cymesur.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol i bob un o'r pleidiau, a gan gofio sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiadau 2012 ac etholiadau gwahanol ers hynny, dylai gwasanaethau allbwn hefyd gymryd sylw o'r dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol, fel patrwm cyson mewn polau piniwn yn ogystal â newidiadau mewn amgylchiadau gwleidyddol.

Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n sefyll i fod yn faer ac nad ydyn nhw'n cynrychioli plaid sydd â llechen lawn o ymgeiswyr yn unrhyw ran o etholiadau Cynulliad Llundain, na phleidiau sydd â digon o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Cynulliad Llundain, ond sydd heb ymgeisydd sy'n sefyll i fod yn Faer, yn cael yr un lefel sylfaenol o sylw, os oes tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu nawr neu os oes cyfiawnhad golygyddol priodol. Dylid ystyried lefelau ychwanegol o sylw pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle gallai pleidiau llai arddel safbwynt gwahanol.

Bydd y gynulleidfa'n cael ei chyfeirio, fel sy'n briodol ac fel isafswm, at y rhestr lawn ar BBC News Online o'r holl bleidiau ac ymgeiswyr sy'n sefyll.

A4.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Bydd lefelau'r sylw ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, naill ai yn yr etholiad i fod yn Faer neu'r etholiad ar gyfer Cynulliad Llundain, yn dibynnu ar dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu nawr, yn ogystal ag amgylchiadau gwleidyddol a barn olygyddol.

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol ar gyfer ymgeiswyr annibynnol, a gan gofio sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiadau 2012 ac etholiadau gwahanol ers hynny, dylai gwasanaethau allbwn hefyd gymryd sylw o'r

dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol, fel patrwm cyson mewn polau piniwn yn ogystal â newidiadau mewn amgylchiadau gwleidyddol.

Roedd un ymgeisydd annibynnol wedi sefyll i fod yn Faer yn 2012 a daeth yn bumed (allan o saith), gydag ychydig o dan 4% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf.

Mae ymgeiswyr annibynnol sy'n sefyll i fod yn Faer yn cael yr un lefel sylfaenol o sylw â phleidiau gwleidyddol, os oes tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu nawr neu gyfiawnhad golygyddol priodol. Dylid ystyried lefelau ychwanegol o sylw pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle gallai ymgeiswyr annibynnol arddel safbwynt gwahanol.

Dylai allbwn perthnasol ystyried ym mha gyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bydd ymgeisydd annibynnol yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth i blaid gwleidyddol, neu lle bydd grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn cydweithio, boed hynny ar fanifesto cyffredin neu fel arall; y nod fydd sicrhau y rhoddir gwybodaeth glir a chywir i'r gynulleidfa ac y rhoddir sylw priodol i'r gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Rhaid bod yn ofalus i sicrhau na fydd unrhyw ymgeiswyr o'r fath sydd â phroffil personol sy'n haeddu sylw yn y newyddion yn cael sylw anghymesur a fyddai'n rhoi mantais annheg iddyn nhw.

A4.5 Cyd-destun cefnogaeth Etholiadol yn Awdurdod Llundain Fwyaf - edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol

Atodiad 5

Llywodraeth Leol mewn rhannau o Loegr (y tu allan i Lundain)

Bydd etholiadau lleol mewn 124 o gynghorau yn Lloegr:⁴
35 bwrdeistref fetropolitan
19 awdurdod unedol
70 awdurdod dosbarth
A 3 etholiad Maer

A5.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu lle caiff etholiadau eu cynnal yn Lloegr (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw i etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr: ynghylch y wlad i gyd, ynghylch cyngor neu ward unigol, neu grŵp o gynghorau neu wardiau.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys ofalu nad ydy sylw i etholiadau llywodraeth leol yn achosi unrhyw annhegwch i ymgeiswyr yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (edrychwch ar Atodiad 6): rhaid cael amhleidioldeb priodol yng nghyswllt y naill etholiad a'r llall.

⁴ Nid yw'r ffigurau wedi cael eu cadarnhau eto

A5.2 Y Pleidiau Mwy yn Lloegr

Dyma'r pleidiau sydd â llawer o gefnogaeth etholiadol ar lefel llywodraeth leol yn Lloegr:

Y Ceidwadwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol ac UKIP.

Gan gofio hyn a lefelau cefnogaeth etholiadol dros gyfres o wahanol fathau o etholiadau, dylai'r pleidiau hyn gael lefelau gweddol debyg o sylw pan fydd hynny'n ymwneud yn uniongyrchol ag etholiadau llywodraeth leol Lloegr 2016.

A5.3 Y Pleidiau Llai yn Lloegr

Wrth benderfynu pa sylw sy'n briodol i bob un o'r Pleidiau Llai, a gan gofio sut roedd pobl wedi pleidleisio yn etholiadau 2012 ac etholiadau gwahanol ers hynny, dylem ni hefyd nodi'r dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol, fel patrwm cadarn a chyson mewn polau piniwn yn ogystal â'r amgylchiadau gwleidyddol perthnasol. Dylid ystyried rhoi sylw ychwanegol pan fydd rhaglenni'n canolbwyntio ar faterion lle gallai pleidiau llai arddel safbwynt gwahanol.

Fel rheol bydd y Blaid Werdd, wrth ddangos rhywfaint o gefnogaeth etholiadol mewn etholiadau lleol yn cael sylw sy'n gymesur i'r pleidiau mwy a mwy o sylw na'r pleidiau hynny sydd â llai o dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol neu nawr neu sydd â llai o ymgeiswyr.

Bydd pob plaid sy'n cyflwyno ymgeiswyr mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi sydd ar gael yn Lloegr (hy tua 445 o ymgeiswyr mewn 2670 o seddi – i'w gadarnhau) yn cael – o leiaf – sylw i lansiad eu maniffesto (neu ddigwyddiad cyfatebol) ar raglenni newyddion rhwydwaith priodol* ac ar-lein.

Os bydd rhaglenni eraill yn penderfynu rhoi sylw i'r etholiadau bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn gyson a thrin pob plaid sy'n cyrraedd y trothwy hwn mewn ffordd gymesur. Dylai rhaglenni lleol a rhanbarthol sy'n rhoi sylw i etholiadau ystyried unrhyw batrymau gwahanol o ran y gefnogaeth etholiadol yn eu hardal yn y gorffennol a/neu nawr.

Yn ogystal, bydd amgylchiadau lle ceir posibilrwydd o Ddim Rheolaeth Lwyr ar gyngor, sy'n golygu y bydd yn olygyddol briodol i unrhyw un neu fwy o'r pleidiau llai gael mwy o sylw, er enghraifft, yng nghyd-destun "adeiladu clymblaid".

A5.4 Ymgeiswyr Annibynnol

Mae ymgeiswyr annibynnol yn denu lefelau sylweddol o gefnogaeth mewn llawer o etholiadau lleol a bydd y gynulleidfa'n disgwyl i hynny gael ei adlewyrchu mewn sylw perthnasol. Dylid rhoi sylw cymesur i ymgeiswyr annibynnol (hyd at lefelau tebyg i'r pleidiau mwy mewn rhai wardiau neu gynghorau), lle y maent wedi dangos:

- cefnogaeth etholiadol sylweddol yn flaenorol (ee yn dal y sedd ar hyn o bryd)
- fod tystiolaeth o gefnogaeth sylweddol gan etholwyr ar hyn o bryd.

Yn ogystal, bydd amgylchiadau lle ceir posibilrwydd o Ddim Rheolaeth Lwyr ar gyngor, sy'n golygu y bydd yn olygyddol briodol i unrhyw un neu fwy o ymgeiswyr annibynnol dderbyn mwy o sylw, er enghraifft, yng nghyd-destun "adeiladu clymblaid".

Dylai allbwn perthnasol hefyd ystyried ym mha gyd-destun gwleidyddol y mae ymgeiswyr yn sefyll: er enghraifft, lle bydd ymgeisydd annibynnol yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth i blaid wleidyddol, neu lle bydd grŵp o ymgeiswyr annibynnol yn cydweithio, boed hynny ar fanifesto cyffredin neu fel arall; y nod fydd sicrhau y rhoddir gwybodaeth glir a chywir i'r gynulleidfa ac y rhoddir sylw priodol i'r gwahanol safbwyntiau gwleidyddol.

Mae rhagor o gyngor am roi sylw i bleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol ar gael gan y Prif Gyngorydd, Gwleidyddiaeth.

Atodiad 6

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (Lloegr – y tu allan i Lundain – a Chymru)

A6.1 Sylw

Mae'r Atodiad hwn yn berthnasol i'r cynnwys y mae bwriad ei ddarlledu yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys deunydd ar-lein ac ar draws y DU) pan fydd unrhyw sylw i etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau: ynghylch y wlad i gyd, ynghylch ardal heddlu unigol, neu grŵp o ardaloedd heddlu.

A6.2 Pleidiau ac Ymgeiswyr

Y dystiolaeth o'r set gyntaf o etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, yn 2012, ydy nad ydyn nhw o reidrwydd yn cael eu hympladd yn yr un ffordd ag etholiadau eraill. Nid oedd pob plaid wleidyddol wedi eu trin yn yr un ffordd (roedd rhai wedi cynnig llai o ymgeiswyr neu ddim) ac roedd ymgeiswyr annibynnol yn amlwg ac yn aml yn llwyddo. Roedd y blaendal uchel wedi cyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr. Roedd y rhan fwyaf wedi cael eu hympladd yn fwy ar faterion lleol – heb fanifestos cenedlaethol.

Wrth asesu lefelau gwahanol y sylw rhwng ymgeiswyr, felly, mae'n debyg y bydd y pwysau a roddir i wahanol fathau o etholiadau dilynol yn yr un ardaloedd yn debyg o fod yn gyfyngedig. Yn yr un modd, i'r graddau y mae tystiolaeth o "gefnogaeth etholiadol gyffredol" yn dibynnu i raddau helaeth ar bolau piniwn, mae'r rhain yn debyg o fod yn gyfyngedig o ran eu defnydd ar gyfer ardaloedd heddlu unigol.

Ym mhob ardal, felly, bydd cynhyrchwyr cynnwys yn ystyried "cefnogaeth etholiadol yn y gorffennol" – hy pan gynhaliwyd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau'r tro diwethaf a phwy a oedd wedi

ymgeisio. Ond bydd yn rhaid iddyn nhw hefyd yn ystyried natur etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, nifer yr ymgeiswyr a phatrymau gwahanol y gefnogaeth etholiadol, er enghraifft, rhwng ymgeiswyr plaid ac ymgeiswyr annibynol (am y rheswm hwnnw, nid oes gwahaniaeth rhwng y canllawiau ar gyfer ymgeiswyr plaid ac ymgeiswyr annibynnol).

Caiff cynhyrchwyr cynnwys roi sylw i dystiolaeth gadarn a gwrthrychol o "gefnogaeth etholiadol gyfredol" ac o unrhyw amgylchiadau gwleidyddol perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â faint o sylw cymharol a roddir. Gallai'r math o amgylchiadau lle gallai ymgeiswyr gael llai o sylw fod ar gyfer, er enghraifft, pan nad ydyn nhw wedi lansio manifesto neu pan nad ydyn nhw wedi nodi polisiau'n benodol ar faterion sy'n ymwneud â'r heddlu a throseddu, neu pan fyddan nhw'n ymgyrchu, er enghraifft, ar un mater, neu'n bwriadu denu sylw at achos penodol neu fenter fasnachol, yn hytrach na gyda bwriad go iawn i gael eu hethol. Serch hynny, dylai hyn fod yn brawf llym; mae cyngor penodol ar gael gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Fel arall, fel rheol gall ymgeiswyr yn yr un "etholaeth" – neu ardal heddlu – ddisgwyl lefelau gweddol debyg (nid union yr un faint o reidrwydd) o sylw i'w gilydd dros gyfnod yr etholiad i gyd mewn eitemau am yr ardal heddlu honno.

Rhaid i orsafoedd rhanbarthol a lleol neu raglenni sy'n edrych ar fwy nag un ardal heddlu sicrhau amhleidioldeb priodol ym mhob un (hy sicrhau nad ydy'r sylw sy'n cael ei roi i bleidiau neu i ymgeiswyr mewn un ardal yn creu unrhyw annhegwch i bleidiau neu ymgeiswyr mewn etholiad arall yn yr un ardal darlledu).

Dylai cynhyrchwyr cynnwys hefyd ofalu nad ydy sylw i etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn achosi unrhyw annhegwch i ymgeiswyr yn yr etholiadau ar gyfer llywodraeth leol (edrychwch ar Atodiad 5): rhaid cael amhleidioldeb priodol yng nghyswllt y naill etholiad a'r llall.

Rhaid i raglenni rhwydwaith sy'n cynnwys eitemau sy'n ymwneud ag etholiadau'r Comisiynwyr yn gyffredinol, ofalu eu bod yn sicrhau nad yw cynnwys cyfranwyr o bleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn llawer o'r etholaethau neu'r etholaethau i gyd yn achosi annhegwch i ymgeiswyr eraill (ee ymgeiswyr annibynnol) sy'n sefyll fel unigolion mewn un etholaeth.

Fel rheol dylid sicrhau amhleidioldeb priodol, ym mhob etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mhob rhaglen neu ar draws dilyniant o raglenni. Mae modd ei gyflawni ar draws darpariaeth gyfan sianel neu orsaf ond mae'n rhaid wedyn cyfeirio pobl mewn ffordd glir ac amlwg, rhoi cyfeiriadau priodol at fanylion llawn y wefan a rhoi sylw dyledus i sicrhau tegwch (er enghraifft, amserlennu cyfweiliadau'n briodol ar wahanol adegau o'r dydd).

A6.3 Cyd-destun cefnogaeth mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr – edrychwch ar y papur ar y Dirwedd Etholiadol.

***Atodiad 7** “Rhaglenni rhwydwaith priodol” yn yr atodiadau uchod yn cyfeirio at:

- o leiaf dau o'r prif fwletinau ar BBC One (hy One, Six, Ten)
- Y Sianel Newyddion, gan gynnwys News at Five
- Radio 4 1800.
- 5 Live Drive
- BBC Online
- Crynodebau Radio 2
- Newsbeat